



**Cyfarfod Bwrdd CHC
a gynhaliwyd ddydd Iau 21 Mehefin
yn swyddfeydd CHC yng Nghaerdydd**

Cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd CHC ddydd Iau 21 Mehefin yn swyddfeydd CHC yng Nghaerdydd. Roedd cworwm yn y cyfarfod gyda 7 aelod bwrdd yn bresennol yn ogystal ag aelodau o Uwch Grŵp Rheoli CHC. Roedd y rhai'n bresennol yn cynnwys Debbie Green (Tai Coastal), Andrew Bowden (Cartrefi Conwy), Scott Sanders (Linc Cymru), Paul Roberts (Newydd), Matt Brown (Annibynnol), Steve Higginson (Cymdeithas Tai Sir Fynwy) a Chris O'Meara (Cadwyn).

Mae'r dilydol yn grynodedb o'r eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod.

Cyllideb 2018-19 wedi'i diweddarau: Cyflwynwyd cyllideb ddiwygiedig 2018-19 i'r Bwrdd, i ddangos goblygiadau parhau i dalu rhent ar y gofod gwag ar y llawr cyntaf. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn parhau i weithio'n agos gydag asiant gosod, ac mae'r Bwrdd yn fodlon fod tîm CHC yn gwneud popeth a fedrant i leihau'r risg a achosir gan y gofod gwag. Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd Chwarter 4 All-dro y Flwyddyn gyda gwarged o £54k fel canlyniad i gynnydd mewn gweithgaredd masnachol a pherfformio'n well na'r targedau blynyddol.

Canlyniad: Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro gosod y gofod ar y llawr cyntaf a chymeradwyo All-dro Blwyddyn Chwarter 4.

Cynllun Corfforaethol a Phroses Ymgynghori: Mae CHC ar hyn o bryd ym mlwyddyn olaf Cynllun Corfforaethol 3 blynedd. Gan feddwl ymlaen i'r cynllun nesaf, mae CHC yn y broses o lunio ymgynghoriad gyda'r sector fydd yn cynnwys rheolwyr lefel ganol, prif swyddogion gweithredol, timau arweinyddiaeth a chadeiryddion a byrddau. Cytunwyd hefyd y dylai Bwrdd CHC gymryd rhan. Cynhelir yr ymgynghoriad gydag aelodau ym mis Medi a mis Hydref.

Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Broses Ymgynghori

Adolygiad Llywodraethiant Mewnol: Oherwydd cyflwyno Cod Llywodraethiant newydd CHC, teimlwyd ei bod yn addas fod Bwrdd CHC yn mabwysiadu egwyddorion tebyg yn ei lywodraethiant. Nodwyd y papur a gyflwynwyd gan yr is-bwyllgor a chytunwyd y dylid adolygu'r egwyddorion hyn yn barhaus.

Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y phapur a chytuno i adolygu ei weithdrefnau a phrosesau yn barhaus.

Adolygiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy: Bu CHC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Tai ac maent wedi cysylltu â'r sector am wirfoddolwyr ar gyfer y 10 ffrwd gwaith y bydd yr Adolygiad yn canolbwyntio arnynt. Yn ychwanegol i hyn, caiff y gwirfoddolwyr hynny na chafodd eu dewis ar gyfer y ffrydiau gwaith eu cynnwys mewn grwpiau cyfeirio. Bydd hyn yn sicrhau y gall gwahanol sefydliadau fwydo i mewn i'r ffrydiau gwaith. Ymhellach, bydd CHC yn edrych ar sianeli cyfathrebu i sicrhau fod aelodau'n cael cyfle i fwydo mewn i'r adolygiad ac yn cael eu hysbysu am gynnydd.

Canlyniad: CHC i gadarnhau'r gwirfoddolwyr a'r ffrydiau gwaith a'r grwpiau cyfeirio yn y dyddiau nesaf.



Recriwtio Bwrdd a Chadeiryddion: Cytunodd y Bwrdd mai prif rôl y Cadeirydd fyddai cynrychioli'r Bwrdd a'i reoli'n effeithlon, yn hytrach na bod yn llysgennad i'r sector. Roedd hefyd eglurhad pellach am y sgiliau y bydd y Pwyllgor Enwebiadau yn edrych amdanynt mewn aelodau Bwrdd newydd, yn cynnwys dirnadaeth fasnachol ac ymwybyddiaeth digidol. **Canlyniad: Bydd y Pwyllgor Enwebiadau yn addasu'r manylebion swydd ac yn cyhoeddi'r hysbysebion swydd ar 9 Gorffennaf.**

Swyddog Cyfryngau a Chyfathrebu: Mae CHC yn awr wedi ail-hysbysebu ar gyfer Swyddog Cyfryngau a Chyfathrebu, gyda'r Gymraeg yn ofyniad dymunol Mae CHC yn edrych ar ffyrdd i wella'r capasiti Cymraeg o fewn y CHC.

Bydd y bwrdd nesaf yn cyfarfod ar gyfer Diwrnod Strategol Cwrdd i Ffwrdd ar 18 Gorffennaf yng Ngwesty'r Imperial, Llandudno, a chynhelir cyfarfod swyddogol nesaf y Bwrdd ar 11 Medi yn swyddfa CHC yng Nghaerdydd.